# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pontrobert

**Neuadd y Pentre**
**Pontrobert**
**Meifod**
**Powys**
**SY22 6JN**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Pontrobert

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Pontrobert |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Bethan Edwards |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | |
| Person â gofal | Lowri Lewis |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 19 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 11 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun 09:00-15:00<br>Dydd Mawrth 09:00-12:30<br>Dydd Mercher 09:00-11:30<br>Dydd Iau 09:00-15:00 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2015 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/07/2023 |
| Mae bron bob un plentyn yn siarad Saesneg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod rhyngweithiadau ymarferwyr yn cefnogi ac yn ymestyn medrau plant

A2 Datblygu'r defnydd o asesiadau ac arsylwadau ymhellach er mwyn cynllunio profiadau pwrpasol sy'n diwallu anghenion pob plentyn

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob un o’r plant yn hapus o fewn eu hamgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn teimlo’n ddiogel yn y lleoliad ac yn hapus wrth gyrraedd a gadael eu rhieni/gofalwyr. Mae bron bob un yn hapus i fynd at yr ymarferwyr am gymorth a chwtsh pan maent wedi blino neu pan maent yn drist. Maent yn frwdfrydig wrth eu tasgau amrywiol ac yn eu mwynhau’n fawr. Mae bron bob un yn ymfalchïo pan fydd ymarferwyr yn rhoi clod iddynt, er enghraifft am arllwys eu llaeth yn annibynnol neu am ganu’n dda.

Mae bron bob un o’r plant yn dangos ymdeimlad cryf o berthyn i’r lleoliad ac mae ganddynt lais cryf mewn perthynas â dewis gweithgareddau a ble yr hoffent dreulio eu hamser. Maent yn teimlo bod ymarferwyr yn eu gwerthfawrogi, yn gwrando arnynt ac yn parchu eu hoffterau wrth ddewis eu hoff ardaloedd chwarae. O ganlyniad, maent yn symud o un gweithgaredd i’r llall yn hyderus. Mae’r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau’n dda naill ai ar lafar neu drwy gyswllt llygad â’r ymarferwyr sy’n eu hadnabod yn dda. Mae’r plant ieuengaf yn pwyntio at adnoddau tra bod llawer o’r rhai hŷn yn mynegi’n glir ar lafar yr hyn maent ei angen, fel mwy o laeth neu help i wisgo het haul a chôt.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn rhyngweithio’n dda ymysg ei gilydd ac yn cyfathrebu’n effeithiol â’u cyfoedion. Maent yn garedig, yn ymddwyn yn gwrtais a chyfeillgar, yn cymryd tro ac yn rhannu teganau yn unol â’r hyn sy’n briodol o ystyried eu hoed a’u

cam datblygiad. Mae ychydig o blant yn dangos empathi tuag at eraill fel estyn llaw i helpu plentyn arall wrth gerdded i'r ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r ymarferwyr, yn eu parchu ac yn gwrando'n astud ar eu cyfarwyddiadau a'u cwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf yn chwarae'n frwdfrydig ac yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig wrth adeiladu llwybr i degan digidol grwydro o gwmpas. Maent yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau, gydag ychydig yn chwerthin yn uchel, er enghraifft wrth iddynt reoli cyfeiriad car electronig o dan y byrddau a'r cadeiriau a tharo mewn i'r waliau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau annibynnol da. Wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, mae'r mwyafrif yn chwilio am eu henwau er mwyn rhoi cotiau a bagiau yn y man cywir. Mae bron bob un yn helpu eu hunain i gwpan a diod amser snac. Mae bron bob un yn arllwys eu llaeth a'u dŵr eu hunain, yn estyn eu ffrwythau ac yn dychwelyd y llestri i'r bowlen olchi ar ôl gorffen.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron bob plentyn yn cyd-chwarae'n frwdfrydig ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu gan ddewis ble i chwarae'n annibynnol. Mae bron bob un yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn bwrpasol i gyfarwyddiadau. Maent yn ymuno i ganu caneuon fel 'Sut mae'r tywydd heddiw?' yn llwyddiannus. Mae tua hanner y plant yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell. Mae bron bob un yn trafod llyfrau'n fedrus ac yn ymgysylltu â storïau a ddarllenir gan ymarferwyr yn frwdfrydig. Maent yn darllen eu henwau yn llwyddiannus wrth hunangofrestru. Mae mwyafrif y plant yn gwneud marciau'n bwrpasol gyda chyfryngau gwahanol fel sialc, paent a chreonau ac yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cadw nodiadau'n ystyrlon mewn llyfrynnau, er mwyn creu rhestr siopa yn yr ardal chwarae rôl. Mae lleiafrif y plant hŷn yn ysgrifennu eu henwau'n llwyddiannus.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn addas. Maent yn ymuno'n frwdfrydig â rhigymau rhif, er enghraifft, 'Pum crocodeil yn nofio yn yr afon'. Mae mwyafrif y plant yn defnyddio iaith fathemategol syml mewn cyd-destunau perthnasol, er enghraifft wrth gymharu maint dinosoriaid ac wrth adeiladu â blociau pren. Mae bron bob un yn adrodd rhifau i 10 ar lafar. Mae llawer o blant yn adnabod lliwiau yn hyderus yn y Gymraeg ac yn enwi siapiau dau ddimensiwn wrth chwarae. Fodd bynnag, elfennol yw medrau a chysyniad rhif y plant o ystyried eu hoed a cham cynnydd.

Mae bron bob un yn datblygu medrau corfforol cryf trwy ddringo ar gyfarpar anturus a llithro ar y llithren yn y parc cymunedol cyfagos. Mae tua hanner y plant yn datblygu medrau taflu yn hyderus, er enghraifft drwy daflu pêl i rwyd a siapiau gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn dda ac yn defnyddio eu dychymyg wrth chwarae. Er enghraifft, yn yr ardal cegin, maent yn defnyddio darnau rhydd i efelychu bwyd y ci. Maent yn perfformio dawns ar y llwyfan allanol yn fedrus

ac wrth eu bodd yn creu rhythm eu hunain drwy daro bariau sain yn y parc cymunedol.

Mae bron bob un yn gyfarwydd â defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn eu chwarae ac yn gwneud hynny'n lled hyderus. Er enghraifft, maent yn defnyddio llechen electronig i dynnu lluniau a dewis lliwiau gwahanol. Mae llawer o blant yn datrys problemau drwy reoli ble gall Mr Urdd deithio yn ei gar electroneg o gwmpas y lleoliad. Mae ychydig o blant yn canolbwyntio am amser cynyddol i ddatrys problemau, er enghraifft drwy archwilio siapiau magnetig i greu bocs siâp seren.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion unigol plant. Maent yn dilyn gweithdrefnau'n fanwl ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae'r gweithdrefnau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn diheintio byrddau yn ofalus cyn byrbrydau ac yn golchi dwylo yn rheolaidd. Maent yn ymwybodol o anghenion iechyd y plant ac mae ganddynt weithdrefnau clir i gefnogi'r anghenion hynny.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o brosesau diogelu plant ac maent yn hyderus i'w gweithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cymarebau staffio yn addas bob amser ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer derbyn y plant a gadael y lleoliad yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl a chynnes â'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn rhyngweithio'n naturiol ac yn esbonio a chefnogi'r plant i barchu ei gilydd. Mae ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl da iawn ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol gan wrando, cydweithio ac egluro mewn modd clir a gofalgar. Maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn briodol ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant fod yn egnïol a datblygu eu medrau. Mae ymarferwyr yn darparu negeseuon cyson am bwysigrwydd chwarae'n ddiogel i sicrhau nad yw plant yn brifo'u hunain wrth chwarae ac arbrofi, er enghraifft maent yn atgoffa plant i beidio ag adeiladu pibell dŵr o flaen y siglen.

Mae ymarferwyr yn adeiladu perthynas dda iawn â'r plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Mae ymarferwyr yn darparu naws ac amgylchedd sy'n meithrin gofal ac yn dangos parch. Maent yn annog annibyniaeth y plant mewn modd caredig a sensitif ac yn cynnig anogaeth i adeiladu ar eu medrau unigol i feithrin eu hunan-barch. Yn ystod amser byrbryd, anogir y plant i ymweld â'r 'gegin snac' yn eu hamser eu hunain, heb ymyrraeth yr ymarferwyr. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn ymwybodol o'r fframwaith newydd ac yn hyderus i ddilyn y prosesau, fel y maent wedi'u hamlinellu ym mholisi'r lleoliad.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu diddorol sy'n annog datblygiad cyfannol pob plentyn. Maent yn cynnig cyfnodau hir o chwarae di-dor i blant archwilio eu syniadau. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant, ac maent yn cynnig cyfleoedd effeithiol i fagu eu hannibyniaeth. Un o gryfderau’r cynllunio yw’r modd y mae’r ymarferwyr yn ystyried awgrymiadau a diddordebau’r plant, yn ogystal â’r rhieni, wrth gynnig profiadau. Mae dulliau addysgu’r ymarferwyr yn cefnogi’r plant i ddatblygu ystod o fedrau defnyddiol sy’n ehangu ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn cynnal diddordeb wrth chwarae am gyfnodau estynedig.

Mae’r ymarferwyr yn fodelau iaith effeithiol ac yn bwydo geirfa’n llwyddiannus. Maent yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddatblygu medrau llythrennedd, er enghraifft darllen straeon mewn ffordd gynnes a brwdfrydig, gan ysgogi’r plant i ddatblygu cariad at lyfrau. Mae’r ymarferwyr yn rhyngweithio’n gynnes â’r plant, ac yn ymyrryd yn addas wrth iddynt ddiddori yn eu chwarae. Fodd bynnag, nid yw’r trafodaethau bob amser yn ffocysu’n ddigon effeithiol ar ymestyn medrau plant.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau creadigol a chorfforol y plant yn gyson dda. Yn ogystal, maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant ac i gefnogi eu hymwybyddiaeth o’u cymuned. Mae hyn yn cefnogi datblygiad medrau plant ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn dda iawn. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb am dacluso eu platiau a chwpanau ar ddiwedd amser snac ac yn dysgu iddynt aros eu tro gyda theclynnau digidol. Maent yn canolbwyntio ar onestrwydd, tegwch a pharch yn dda iawn ac yn sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt drin ei gilydd a’u hamgylchedd yn ofalus.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu chwilfrydedd y plant am y byd o’u cwmpas drwy ddathlu achlysuron diwylliannol megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn effeithiol trwy ystod o weithgareddau a dathliadau fel diwrnod Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi a dathlu gorymdaith yr Urdd.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau arsylwi ac asesu pwrpasol, sy’n galluogi’r ymarferwyr i ddefnyddio’r wybodaeth i gynllunio ystod briodol o gyfleoedd dysgu a chwarae. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio eu hasesiadau bob amser i gynllunio profiadau digon ymestynnol i bob plentyn, yn enwedig y cysyniad o rif. Mae’r ymarferwyr yn gweithredu asesiad cychwynnol effeithiol ar bob plentyn. Yn ddiweddar, maent yn cofnodi’r asesiadau hyn ar ffurf llythyr personol i’r plentyn. Mae’r rhieni'n hapus iawn â’r dull hwn o rannu gwybodaeth am eu plant. Mae’r ymarferwyr hefyd yn arsylwi plant yn rheolaidd ac yn rhannu’r sylwadau hynny â rhieni wyneb yn wyneb ar ddiwedd yr wythnos.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae’r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel, glân ac ysgogol ar gyfer plant yn y neuadd gymunedol leol. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn cwblhau rhestrau gwirio diogelwch dyddiol ar gyfer pob ardal, gan gynnwys yr ardal awyr agored. Maent yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn cael eu cynnal i safon dda. Mae’r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg yn drylwyr. Mae ganddynt dystysgrifau diogelwch ac yswiriant boddhaol.

Er bod yr ymarferwyr yn gosod a chadw’r holl offer ac adnoddau yn ddyddiol, maent yn llwyddo i greu amgylchedd chwarae a dysgu ysgogol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r ystafell a’r ardal awyr agored i ddarparu ardaloedd dysgu trefnus y gall plant eu defnyddio’n annibynnol. Er enghraifft, mae’r ardal chwarae gwaith pren yn hyrwyddo profiadau dysgu trwy gynnig adnoddau bywyd go iawn. Mae digonedd o le i ymarferwyr arwain gweithgareddau grŵp, gan gynnwys dawns ac amser stori ryngweithiol. Mae'r amgylchedd allanol yn cynnig ystod lawn o brofiadau difyr i’r plant, ac mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn gwneud y gorau o’r gofod sydd ar gael. Mae’r ymarferwyr yn cynllunio i ddefnyddio’r ardal allanol mor aml â phosibl, sy’n hyrwyddo medrau a lles y plant yn llwyddiannus.

Mae’r ystod effeithiol o adnoddau ym mhob ardal o fewn cyrraedd y plant, sy’n hyrwyddo’u hannibyniaeth. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i fanteisio ar adnoddau yn yr ardal chwarae rôl, helpu eu hunain i adnoddau peintio, adnoddau digidol, ac offer chwarae awyr agored. Mae’r ymarferwyr yn darparu adnoddau sy’n cefnogi dysgu plant yn dda ac i fod yn greadigol. Er enghraifft, gwneir defnydd da o adnoddau naturiol ac adnoddau rhannau rhydd mawr a bach megis pibellau, teiars, bwcedi, cregyn a thuniau. Ceir adnoddau i gefnogi’r ddealltwriaeth o ddathliadau i ymestyn chwilfrydedd a dealltwriaeth plant o’r byd, a gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth, fel y bo’n briodol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol yn y lleoliad ac mae'r plant a'r ymarferwyr oll yn hapus yno. Maent yn sicrhau eu bod yn ystyried barn yr holl randdeiliaid. Maent yn cynnal trafodaethau defnyddiol â nhw ac yn ystyried eu hawgrymiadau’n llawn. Enghraifft dda iawn o hyn oedd y modd y cyfrannodd bawb at y broses ar gyfer creu gweledigaeth y lleoliad.

Mae’r arweinwyr yn arwain y lleoliad yn gadarn ac yn canolbwyntio’n effeithiol ar wella’r ddarpariaeth a medrau’r plant. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio’n fwriadus i greu amgylchedd diddorol, sy’n hybu dysgu’r plant yn bwrpasol. Mae ymarferwyr yn gwrando’n synhwyrol ar gyngor swyddogion cefnogi ac yn sicrhau eu bod yn cydweithio’n effeithiol fel tîm.

Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i ddangos caredigrwydd a gofal i'r plant**.** Mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau. Mae’r arweinwyr yn cefnogi anghenion dysgu proffesiynol a phersonol yr holl ymarferwyr i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae'r person cofrestredig yn chwarae rhan greiddiol yng ngweithgareddau'r lleoliad, gan gydweithio'n agos â'r person â gofal. Mae hyn yn sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd ac yn ei galluogi i gefnogi'r ymarferwyr yn barhaus. Mae trefniadau rheolaidd ar waith i werthuso perfformiad ymarferwyr, ac maent yn goruchwylio a gwerthuso'u gwaith yn effeithiol. Ceir datganiad o ddiben clir sy'n cael ei adlewyrchu'n effeithiol yn y lleoliad.

Mae system arfarnu cryf a pharhaus ar waith i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i ddefnyddio'r Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu'r ardal allanol yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr wrth i'w plant gychwyn er mwyn cael persbectif unigol o'u cryfderau a'u hoffterau. Mae systemau effeithiol ar waith i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â rhieni a gofalwyr o gynnydd eu plant. Yn ogystal, maent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i ddarparu gwybodaeth gyfredol am brofiadau'r plant i'w rhieni a'u gofalwyr.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â'r ysgolion cynradd lleol. Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi'n effeithiol wrth iddynt symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 06 Medi 2023